

Atebion

3. Er enghraifft: mentrus, penderfynol, annibynnol, gweithgar, entrepreneuriaidd, galluog, cyfoethog, cefnog.
6. MBE = Member of the Most Excellent Order of the British Empire.
7. Mae * ar ôl SBTV i ddangos ei fod yn cael ei esbonio ar waelod y darn.
10. i) gwneud bywoliaeth/cael deupen llinyn ynghyd; ii) yn graig o arian; iii) gwneud bywoliaeth/cael deupen llinyn ynghyd; iv) o dipyn i beth; v) yn wreiddiol.
11. **Cafodd** Jamal gamera fideo syml yn anrheg Nadolig pan oedd yn 15 oed. **Dechreuodd** ffilmio ffrindiau'n rapio neu'n canu, ac yna byddai'n lanlwytho'r fideos i YouTube er mwyn i ffrindiau eraill eu gweld.
Gadawodd yr ysgol a mynd i weithio yn Topman. Yn ei amser hamdden byddai wrthi'n brysur yn gwneud fideos. **Dechreuodd** mwy a mwy o bobl wyllo'r fideos, felly **sefydlodd** gwmni SBTV a chyn hir, roedd cannoedd o filoedd o bobl ifanc yn gwyllo.
Felly, **cysylltodd** Jamal â YouTube i weld a oedd ganddo hawl i ychydig o arian yr hysbysebion. **Gwrthododd** YouTube dair gwaith, ond **daliodd** Jamal ati. **Profodd** mai ei waith gwreiddiol ef oedd y fideos ac **anfonodd** YouTube siec o ychydig gannoedd o bunnau ato.

Tasg estynnol: **Cefais** gamera fideo syml yn anrheg Nadolig pan **oeddwn** yn 15 oed. **Dechreuais** ffilmio ffrindiau'n rapio neu'n canu, ac yna **byddwn yn** lanlwytho'r fideos i YouTube er mwyn i ffrindiau eraill eu gweld.
Gadewais yr ysgol a mynd i weithio yn Topman. Yn **fy** amser hamdden **byddwn** wrthi'n brysur yn gwneud fideos. Dechreuodd mwy a mwy o bobl wyllo'r fideos, felly **sefydlais** gwmni SBTV a chyn hir, roedd cannoedd o filoedd o bobl ifanc yn gwyllo.
Felly, **cysylltais** â YouTube i weld a oedd **gennyf** hawl i ychydig o arian yr hysbysebion. Gwrthododd YouTube dair gwaith, ond **daliais** ati. **Profais** mai **fy** ngwaith gwreiddiol i oedd y fideos ac anfonodd YouTube siec o ychydig gannoedd o bunnau **ataf**.
12. i) Fy mrawd i yw'r bachgen **talaf** yn ei ddosbarth.
ii) Fy chwaer i yw'r ferch **dalaf** yn ei dosbarth.
iii) Y llyfr hwn yw'r un **mwyafr diddorol**, yn fy marn i.
iv) Y rhaglen hon yw'r un **fwyafr diddorol**, yn fy marn i.
v) Fy siwmpwr yw'r un **fwyafr cynnes** sydd gennyf.
vi) Car Mr Jones yw'r un **cyflymaf** sydd yn y maes parcio.
vii) Llais Nia yw'r un **cryfaf** yn y côr. (Mae Llais Nia yn wrywaidd)
viii) Y pryd bwyd hwn yw'r un **mwyafr blasus** a gefais ers tro.